

Y Rhai Nas Cymodwyd – Garawys 2011

Nefoedd ac Uffern

Dydd Sul, 10 Ebrill 2011

DECHRAU'R DAITH

Nefoedd ar y ddaear?

Wrth inni deithio trwy'r Garawys a nesáu at yr Wythnos Fawr a fydd yn coffáu dyddiau olaf bywyd Iesu ar y ddaear, mae'n briodol treulio peth amser yn myfyrio ar ein tynged derfynol. Buom yn sôn ar ddechrau'r Garawys sut y byddwn yn byw ac yna'n marw; yr ydym i fod i gofio mai llwch ydym. Beth, felly, fydd yn digwydd inni ar ôl inni farw? Fe wyddom beth fydd yn digwydd i'n cyrff, ond beth fydd yn digwydd i'n syniad ohonom ein hunain, ein hunaniaeth, ein hatgofion a'n profiad o fyw? Ac os oes bywyd ar ôl marwolaeth, beth fydd ein profiad ohono?

Y mae gwahanol grefyddau yn cynnig gwahanol atebion i'r cwestiynau hyn. Yn y gymdeithas sydd ohoni fe geir hefyd 'arbenigwyr' sy'n honni eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd y tu hwnt i fywyd. Y mae pobl seicig, clirweledwyr, siamanwyr, teithwyr serol, pobl sy'n dweud eu bod mewn cysylltiad ag angylion ac ysbrydion, i gyd yn honni y gallant ddweud wrthym pwy a beth sydd yr ochr draw i farwolaeth a beth a wneir ac a ddywedir yno.

Nid oes ar Gristnogion angen dim o hyn. Yn nigwyddiadau'r Pasg y mae hanfod y gred Gristnogol am ein tynged derfynol – yn yr Iesu croeshoeliedig yn atgyfodi o blith y meirw ac yn dangos yn ei gorff atgyfodedig ddechreuad bywyd newydd gyda Duw. Yr un Iesu ydoedd, cyfaill ac athro'r disgyblion; gellid o hyd ei adnabod a dalia i siarad â'r rhai a garai ac i ofalu amdanynt. Yn ei ymddangosiadau i'r disgyblion ar ôl ei atgyfodiad, gwelwn y math o fywyd y mae Duw am inni ei fyw ac y mae'n ei wneud yn bosibl inni.

Ond dydym ni ddim yno eto, ac mae wythnos tan yr Wythnos Fawr. A chyn inni gyrraedd yno i ddathlu stori ryfeddol ein hiachawdwriaeth, yr ydym yn dal, fel petai, yn y byd hwn, yn ceisio gweithio allan beth y mae Duw yn ei wneud a beth y dylem ni fod yn ei wneud i ymuno ag ef. Felly, y mae i'n harchwiliad o Nefoedd ac Uffern ddimensiwn arall – nid bywyd ar ôl marwolaeth, ond y bywyd presennol a sut y profir ef gan bobl ledled y byd.

Pa fath o ddelweddau a gonsurir gan y geiriau 'nefoedd' ac 'uffern'? Pan feddyliwn am y pethau hyn, byddwn yn tynnu ein delweddau o'r byd hwn – delweddau o dangnefedd a phrydferthwch neu o artaith ac anobaith. Ac yn y byd hwn y mae rhai pobl yn breuddwydio am wyliau ar ynysoedd paradwysaidd ac eraill yn dioddef uffern ar y ddaear bob dydd. Pery pob math o bobl yn Rhai Nas Cymodwyd am fod eu cyflwr yn uffernol. Pan ddarllenodd Iesu yn y Deml y darn o Lyfr Eiseia am ddyrchafu'r tlodion, iacháu'r cleifion a rhyddhau'r carcharorion, yr oedd yn dangos ei wrthwynebiad i uffernau o wneuthuriad dyn ac yn ymrwymo i drawsnewid byd Duw. Yn yr adnodd hwn, byddwn yn meddwl mwy am sut i wneud hyn.

Gweithgaredd

Dewiswch o blith yr isod:

- Trefnwch sgwrs gan rywun o'r gymdeithas hanes lleol neu gan aelod o'r gynulleidfa ar fywyd yn yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Os bomiwyd hi, a fu ailadeiladu ac atgyweirio?
- Ewch i weld cofeb y milwyr a gwnewch restr o'r enwau, neu rai ohonynt. Yn ddeuoedd, ysgrifennwch lythyr byr oddi wrth un a fu farw yn nodi ei feddyliau, ei obeithion a'i freuddwydion ar gyfer y rhai a fyddai'n goroesi'r rhyfel.
- Torrwch luniau a phenawdau allan o bapurau newydd a chylchgronau neu lawrlwythwch ddelweddau oddi ar y rhyngrwyd a gwnewch ludwaith yn darlunio 'uffern ar y ddaear'.
 - Sut y gellid newid y delweddau hyn i fod yn bethau heddychlon a phrydferth?
 - A wyddoch am unrhyw fudiadau ac elusennau sy'n gweithio at newid o'r fath?
 - Ystyriwch sut y gallech sefydlu neu gefnogi prosiect i wneud gwahaniaeth yn y sefyllfa leol.

MYND YN DDYFNACH

Uffern ar y ddaear

Gwyddom oddi wrth ffilimiau teledu, lluniau papur newydd a cheisiadau am roddion gan eglwysy am y bywyd uffernol y tynghedir rhai pobl i'w ddiodeff. Gwelwn luniau o blant yn llwgu, oedolion afiach, pobl yn sefyll hyd at eu gyddfau mewn llyfogydd, neu'n byw mewn gwersylloedd aflêr oherwydd trychinebau naturiol, neu'n ddigartref oherwydd rhyfel. Yr ydym yn gyfarwydd â delweddau o'r fath a byddwn yn cydymdeimlo â'r diodeffwyr ac am eu cynorthwyo. Byddwn yn rhoi arian, yn gweddïo, yn cynnal boreau coffi a rasys hwyliog, yn cefnogi asiantaethau cenhadu a datblygu ac yn edrych ymlaen at glywed sut y mae ein cymorth yn ateb yr anghenion.

Ond faint o bobl eraill sydd yna nad ydynt yn weladwy fel hyn? Faint o bobl ddiodeffus sydd yna na fyddwn byth yn gweld nac yn clywed dim amdanynt? Ffieiddiodd y byd at stori Elisabeth Fritzl, yn byw gydol ei hoes mewn ystafell danddaearol mewn maestref gyffredin, ei thad yn ei cham-drin a hithau'n esgor ar ei blant. Yr oedd yr arswyd nid yn unig oherwydd i'r uffern gael ei chreu o dan ei chartref, ond yn y ffaith y gallai ddigwydd mor agos atom – nid mewn rhyw wlad 'arall' bellennig na fydd yn rhaid inni byth ymwneud â hi, ond mewn lle yr ydym yn gyfarwydd ag ef.

Anaml y byddwn yn meddwl am bobl sy'n byw mewn grwpiau Nas Cymodwyd yn ein cymunedau a'n cymdogaethau ni, a'u bywydau'n uffern am eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u hanghofio. Ni fydd asiantaethau cymorth yn eu cyrraedd na mudiadau rhyngwladol yn rhoi lluniau o'u diodeffaint ar y teledu. Ni fyddant yn derbyn ein rhoddion na'n blychau esgidiau na hyd yn oed yn cael lle yn ein gweddïau. Rhaid iddynt fyw ddydd ar ôl dydd wrthynt eu hunain a byddwn weithiau yn gwneud eu sefyllfa'n waeth trwy beidio â rhoi digon o sylw i bwy ydynt ac i ba le y maent yn byw.

Y wraig, y gŵr, y rhiant oedrannus, y plentyn – a gam-drinnir ac na wêl neb mohonynt am nad oes anaf amlwg; y plentyn mewn slafdy yn y wlad hon am fod arnom ni eisiau dillad newydd rhad heddiw ac nid yfory; y sawl sy'n llithro'n araf ac anorfod i ddyled amhosibl drwy fenthyca mwy a mwy nes, yn y diwedd, ei bod yn ymddangos mai potel o dabledi yw'r unig ffordd allan; y person ifanc a â ar goll ryw ddydd, ac nad yw heddiw ond ystadegyn, ond sydd mewn difrif yn weithiwr rhyw ar stryd rownd y gornel o'n swyddfa ni; y plentyn y gwneir ei fywyd yn uffern bob dydd gan fwllis sy'n anfon testunau bygythiol ac yn gosod lluniau i godi cywilydd arno ar Facebook. Dim ond pan ddaw eu huffern i ben y byddwn yn clywed am bobl fel hyn – y maent yn cael anaf digon drwg i'w lladd, yn eu lladd eu hunain, yn cymryd gormod o gyffur. Pan ddigwydd hynny, y mae'n ddrwg gennym a byddwn yn mynnu y dylid gwneud rhywbeth.

Gweithgaredd

- Dewiswch broblem yn ein cymdeithas a fedr frifo pobl yn y gymuned, e.e. alcoholiaeth, dyled, cyffuriau, afiechyd meddwl, bwlio, ac ati. Gellir cuddio pethau fel hyn oddi wrth deulu, cymdogion, cydweithwyr a chyfeillion am amser hir os yw'r dioddefwr yn cadw'n dawel ac yn dymuno'u cuddio.
- Ceisiwch fwy o wybodaeth oddi wrth elusennau sy'n arbenigo yn y maes am sut y mae'r broblem hon yn effeithio ar unigolion a theuluoedd. Sut y bydd yn gwaethygu, a beth sy'n digwydd i bobl sy'n gaeth iddi? Pa arwyddion sydd y gall fod problem o gwbl a sut y gwyddom pan fydd rhywun yn dioddef ac arno angen cymorth?
- Sut y gallai eich eglwys fod yn effro i broblemau o'r fath a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt? Sut y gallai'r bobl hyn fyw mewn 'nefoedd' a fyddai'n eu rhyddhau o'u hanawsterau a'u galluogi i ffynnu fel y dylent?

www.cofe.anglican.org/debt/strugglingwithdebt
www.bullying.co.uk
www.mind.org.uk
www.samaritans.org

SYMUD YMLAEN

Darllen y Beibl

Eseciel 37.1-14

- ¹ Daeth llaw yr Arglwydd arnaf, ac aeth â mi allan trwy ysbryd yr Arglwydd a'm gosod yng nghanol dyffryn a oedd yn llawn esgryn.
- ² Aeth â mi'n ôl a blaen o'u hamgylch, a gwelais lawer iawn o esgryn ar lawr y dyffryn, ac yr oeddent yn sychion iawn.
- ³ Gofynnodd imi, "Fab dyn, a all yr esgryn hyn fyw?" Atebais innau, "O Arglwydd Dduw, ti sy'n gwybod."
- ⁴ Dywedodd wrthyf, "Proffwyda wrth yr esgryn hyn a dywed wrthynt, 'Esgryn sychion, clywch air yr Arglwydd.'
- ⁵ Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrth yr esgryn hyn: Wele, fe roddaf fi anadl ynoch, a byddwch fyw.
- ⁶ Rhoddaf ewynnau arnoch, paraf i gnawd ddod arnoch a rhoddaf groen drosoch; rhoddaf anadl ynoch, a byddwch fyw. Yna byddwch yn gwybod mai myfi yw'r Arglwydd."
- ⁷ Proffwydais fel y gorchmynnwyd imi. Ac fel yr oeddwn yn proffwydo daeth sŵn, a hefyd gynnwrf, a daeth yr esgryn ynghyd, asgwrn at asgwrn.
- ⁸ Edrychais, ac yr oedd gewynnau arnynt, a chnawd hefyd, ac yr oedd croen drostynt, ond nid oedd anadl ynddynt.
- ⁹ Yna dywedodd wrthyf, "Proffwyda wrth yr anadl; proffwyda, fab dyn, a dywed wrth yr anadl, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: O anadl, tyrd o'r pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, iddynt fyw.'"
- ¹⁰ Proffwydais fel y gorchmynnwyd imi, a daeth anadl iddynt ac aethant yn fyw, a chodi ar eu traed yn fyddin gref iawn.
- ¹¹ Yna dywedodd wrthyf, "Fab dyn, holl dŷ Israel yw'r esgryn hyn. Y maent yn dweud, 'Aeth ein hesgryn yn sychion, darfu am ein gobaiith, ac fe'n torrwyd ymaith.'
- ¹² Felly, proffwyda wrthynt a dywed, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: O fy mhobl, yr wyf am agor eich beddau a'ch codi ohonynt, ac fe af â chwi'n ôl i dir Israel.'
- ¹³ Yna, byddwch chwi fy mhobl yn gwybod mai myfi yw'r Arglwydd, pan agoraf eich beddau a'ch codi ohonynt.

¹⁴ Rhoddaf fy ysbryd ynoch, a byddwch fyw, ac fe'ch gosodaf yn eich gwlad eich hunain. Yna byddwch yn gwybod mai myfi'r Arglwydd a lefarodd, ac mai myfi a'i gwnaeth, medd yr Arglwydd."

Er mai am yr uffern y gall pobl ei phrofi ar y ddaear y buom ni yn meddwl, rhydd yr Ysgrythur ddelweddau inni o allu achubol rhyfeddol Duw. Yn Nuw y mae gobaith, adferiad, addewid newydd. Llethir Eseciel gan weledigaeth o ddod â'r meirw'n fyw. Ac nid cyrff meirw ychwaith ond esgryn sychion ar wasgar hwnt ac yma, mor bell oddi wrth gyrff byw ag y gallent fod. Ac eto, yn y weledigaeth y mae Duw'n cymryd yr esgryn ac yn ail-lunio'r cyrff ac yn anadlu ysbryd bywyd iddynt nes eu llwyr adfer, nid rhyw un neu ddau unigolyn ffodus ond llu enfawr o ryw frwydr anghofiedig. Gwêl Eseciel hyn fel neges ddofn o obaith i Israel, y bydd Duw yn ei hadfer. Dengys y weledigaeth rywbeth arall hefyd, sef Duw deinamig, gweithredol, yn chwilio a chreu ac adfer, Duw nad yw byth yn ymwrthod â'i bobl. Er inni farw, y mae Duw am ein hadfer, am ein dwyn ni o'n beddau, am ein 'cymhwyso ni i'r nefoedd' a'i gwneud hi'n bosibl inni fyw yn ei wÿdd. Dyma sydd ar Dduw ei eisiau i bobl, a hynny nid mewn rhyw fywyd yn y dyfodol pell, ar ôl marw, ond yn awr (gweler y darlleniad o'r Testament Newydd am heddiw am fwy ar hyn).

Cwestiynau i'w trafod

- Beth y mae'r ddelwedd o esgryn sychion yn dod yn fyw yn ei olygu i chwi?
- Ymhle y gwelwch arwyddion gobeithiol o drawsnewid yn eich cymdogaeth, yn y wlad hon, yn y byd?
- Dychmygwch mai chwi yw Eseciel. Sut y byddech yn mynd ati i rannu ag eraill yr hyn a welsoch ac a ddysgasoch? Sut y gallwn ni ledaenu neges gobaith?

DARLLEN Y BEIBL

Efengyl

Ioan 11:17-27, 34-44

¹⁷ Pan gyrhaeddodd yno, cafodd Iesu fod Lazarus eisoes yn ei fedd ers pedwar diwrnod.

¹⁸ Yr oedd Bethania yn ymyl Jerwsalem, ryw dri chilomedr oddi yno.

¹⁹ Ac yr oedd llawer o'r Iddewon wedi dod at Martha a Mair i'w cysuro ar golli eu brawd.

²⁰ Pan glywodd Martha fod Iesu yn dod, aeth i'w gyfarfod; ond eisteddodd Mair yn y tŷ.

²¹ Dywedodd Martha wrth Iesu, "Pe buasit ti yma, syr, ni buasai fy mrawd wedi marw.

²² A hyd yn oed yn awr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo."

²³ Dywedodd Iesu wrthi, "Fe atgyfoda dy frawd."

²⁴ "Mi wn," meddai Martha wrtho, "y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf."

²⁵ Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw;

²⁶ A phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?"

²⁷ "Ydwyf, Arglwydd," atebodd hithau, "yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd."

³⁴ "Ble'r ydych wedi ei roi i orwedd?" gofynnodd. "Tyrdd i weld, syr," meddant wrtho.

³⁵ Torodd Iesu i wylo.

³⁶ Yna dywedodd yr Iddewon, "Gwelwch gymaint yr oedd yn ei garu ef."

³⁷ Ond dywedodd rhai ohonynt, "Oni allai hwn, a agorodd lygaid y dall, gadw'r dyn yma hefyd rhag marw?"

³⁸ Dan deimlad dwys drachefn, daeth Iesu at y bedd. Ogof ydoedd, a maen yn gorwedd ar ei thraws.

³⁹ "Symudwch y maen," meddai Iesu. A dyma Martha, chwaer y dyn oedd wedi marw, yn dweud wrtho, "Erbyn hyn, syr, y mae'n drewi; y mae yma ers pedwar diwrnod."

⁴⁰ "Oni ddywedais wrthyt," meddai Iesu wrthi, "y cait weld gogoniant Duw, dim ond iti gredu?"

⁴¹ Felly symudasant y maen. A chododd Iesu ei lygaid i fyny a dweud, "O Dad, rwy'n diolch i ti am wrando arnaf."

⁴² Roeddwn i'n gwybod dy fod bob amser yn gwrando arnaf, ond dywedais hyn o achos y dyrfa sy'n sefyll o gwmpas, er mwyn iddynt gredu mai tydi a'm hanfonodd."

⁴³ Ac wedi dweud hyn, gwaeddodd â llais uchel, "Lasarus, tyrd allan."

⁴⁴ Daeth y dyn a fu farw allan, a'i draed a'i ddwylo wedi eu rhwymo â lliainiau, a chadach am ei wyneb. Dywedodd Iesu wrthynt, "Datodwch ei rwymau, a gadewch iddo fynd."

Mae'r adroddiad hwn yn Efengyl Ioan yn gwbl glir. Nid arbedodd Iesu Lasarus rhag marw; ni chyrhaeddodd mewn pryd i wneud dim; ni ddileodd yr anobaith a'r mawr alar o golli un annwyl. Oni allai ac oni ddylai fod wedi gwneud hynny? 'Pe buasit ti yma ... ' (11:21). Felly, ni wna Iesu farwolaeth yn llai real; teimla ef a'i gyfeillion alar a dioddefaint y farwolaeth hon. Mae Iesu ei hun yn wylo dros ei gyfaill marw. Ond y mae'r un mor wir nad oherwydd diffyg cariad at Lasarus nac at y rhai y byddai marwolaeth Lasarus yn ergyd drom iddynt, y mae Iesu'n 'gwneud dim'. Nid yw'n golygu nad yw'n ein caru.

Mae'r ffydd Gristnogol yn cydnabod realiti ofnadwy marwolaeth cyn dechrau rhoi cysur. Ac nid cysur arwynebol a roddir ychwaith ond un o fywyd trwy angau a gobaith trwy anobaith. Fe'n gelwir i droedio llwybr profedigaeth ac fe awn ein hunain ar daith marwolaeth. Yn wir, dyma'r daith a gymer Duw yn ei Fab.

Cwestiynau i'w trafod

- Pa effaith ar eich ffydd a gafodd eich profiad o gyfranogi ym marwolaeth pobl a dygymod â phrofedigaeth?
- Dychmygwch mai chwi oedd Lasarus neu aelod o'i deulu. Sut y byddai bywyd ar ôl iddo ddod allan o'r bedd? A oes gennych unrhyw brofiad o gael eich achub rhag anaf neu farwolaeth a fyddai'n gymorth i chwi ymdeimlo â hyn?

SYMUD I'R GARAWYS

Canlyn Iesu

Mae'n draddodiad yn ystod y Garawys darllen stori atgyfodi Lasarus, i'n hatgoffa ni o allu Duw ac i'n paratoi at fynd i mewn yn ddyfnach i ddirgelwch atgyfodiad Iesu oddi wrth y meirw. Ond yr oedd Iesu am i'w ddilynwyr a'i wrandawyr feddwl hefyd am y berthynas rhwng bywyd dynol y presennol a bywyd gyda Duw ar ôl inni farw. Felly, fe adroddodd stori am Lasarus arall, cardodyn a'i gorff yn friwiau i gyd ac y mae ei fywyd yn uffern ar y ddaear (Luc 16.19-31). Ar yr un pryd, y mae dyn cyfoethog yn mwynhau nefoedd ar y ddaear yn ei balas gwych. Ar ôl iddynt farw, try pethau ben i waered. Mae'r dyn cyfoethog yn dioddef yn uffern ac mae Lasarus yn y nefoedd. Gofynna'r dyn cyfoethog am gymorth, ond dywedir wrtho na ellir ei gynorthwyo. Yna, gofynna am i bobl sy'n fyw gael eu rhybuddio, ond dywedir wrtho na fyddent yn credu hyd yn oed pe bai rhywun yn cael ei atgyfodi o flaen eu llygaid, dim ond parhau i'w plesio'u hunain.

Mae Iesu'n treiddio i mewn i'r natur ddynol ac yn ceisio cael pobl i weld bod y berthynas rhyngom a phobl eraill yn effeithio ar bwy ydym. Yn y diwedd, y mae gagendor enfawr rhwng y dyn cyfoethog a Duw am fod y dyn cyfoethog wedi ei ffurfio a'i foldio gan ei hunanoldeb a'i hoffter o fyw'n fras. Ac fe ddeil hyn yn wir am nad ydym yn gwir ddeall beth sydd ar Dduw ei eisiau gennym; yr ydym yn anwybyddu anogaeth yr Ysbryd Glân ac yn dal ati i'n plesio'n hunain. Yn nhymor y Garawys, os ydym am ganlyn Iesu, rhaid inni eistedd i lawr gydag ef a gweithio ar ystyr y stori hon i ni. Cawn gyfle i beidio â bod yn un o'r rhai hynny na wna'r atgyfodiad unrhyw argraff arnynt. Gallwn glywed y neges a gwneud synnwyr ohoni.

Gweithgaredd

- Rhannwch y grŵp yn ddau, y naill yn cynrychioli Lasarus a'r llall y dyn cyfoethog. Cyfansoddwch gardiau post, ebostiau neu gyfres o sgysiau ar wefannau neu sgysiau testun ffôn rhwng Lasarus a'r dyn cyfoethog. Dychmygwch beth y byddai arnynt eisiau ei ddweud wrth ei gilydd am eu bywydau gynt, eu sefyllfa yn awr a dyfodol teulu'r dyn cyfoethog.
- Pa rodd y gallai fod Lasarus am ei hanfon i'r dyn cyfoethog? Pa rodd y byddai'r dyn cyfoethog am ei hanfon i'w deulu?

SYMUD ALLAN

Gweithredu yn y gymuned

Ymwelwch â pharc, safle treftadaeth neu ardal gadwraeth. Dewch o hyd i fan yn agos i'r eglwys neu yn y gymuned – y fynwent, rhandir neu hen sied – a lluniwch brosiect i gynig i bobl 'gipolwg ar y nefoedd'. Gallech wneud hyn at wyl cysegru eglwys, gwyl flodau neu wyl ddiolchgarwch am y cynhaeaf, cyngerdd neu ddigwyddiad ysgol.

GORFFWYS AR Y DAITH

Myfyrdod diwinyddol a gweddi

Yn nofel wyddonias Iain M Bank, *Surface Detail* (2010), amgylcheddau rhith-realiti yw uffernau. Fe'u cedwir gan wareiddiadau i beri i'w pobl (ac estroniaid) iawn ymddwyn. Dangosir hwy i unigolion i'w cadw rhag gwrthryfela yn y byd go iawn. Cychwynnir rhyfel yn y byd go iawn i ddinistrio'r uffernau, ond y mae dyn cyfoethog yn sefydlu rhai ohonynt ar ei stad ei hun er mwyn elw personol. Â dau gymeriad i un o'r uffernau yn y gobaith o gael tystiolaeth am faint yr artaith a'r boen ynddynt fel y bydd y rhai sy'n rheoli'r ffugiadau cyfrifiadurol yn eu hatal. Mae un yn dianc, ond caeir y llall, merch o'r enw Chay, i mewn, ac fe gyll bob gobaith. Yn ddiddorol, daw wedyn o hyd i le a elwir y Noddfa, sy'n debyg i fynachlog, ond bod yn rhaid i bawb a â yno gredu yn Nuw neu gael ei gosbi. Felly, y mae'r Noddfa hithau yn rhan o uffern – y mae credu'n orfodol a'r creaduriaid cwbl ufudd sydd yno yn gaethweision i Dduw. Mae Chay yn marw yn y Noddfa ac yn dod yn angel marwolaeth, yn lladd eneidiau dan artaith i'w rhyddhau o'u dioddefaint ac yn cymryd arni'i hun eu poen tragwyddol.

Trafod a myfyrio

- Beth wnewch chwi o'r syniad bod cael eich gorfodi i gredu yn fath o uffern ynddo'i hun? Pwy allai fod yn cael eu trin fel hyn heddiw?
- Beth ydych chi'n ei feddwl o syniad Banks am ddyn cyfoethog sy'n cadw pobl yn uffern er mwyn elw? Beth, dybiwch chi, y mae'n ei ddweud am y byd yr ydym yn byw ynddo?
- Beth yw eich barn am gemau cyfrifiadurol poblogaidd fel *Silent Hill* a *Resident Evil* sy'n mynd â phobl i amgylchedd tebyg i uffern, a rhai lle y mae eneidiau dan artaith, fampirod a sombiaid?

Gweddi

Arglwydd,
Fe fuost nid yn unig farw,
ond fe dramwyaist anialdiroedd anobaith,
agor pyrth uffern
ac arwain y diobaith
i ddisgleirdeb bywyd newydd.
Cynorthwya ni i'th ddilyn hyd yn oed i uffern
fel, o'r rhai hynny a roddwyd i ti,
na chollwn ddim un. Amen

AMSER PENDERFYNU

Beth sy'n mynd i newid?

Yn awr casglwch eich meddyliau a'ch syniadau ynghyd ac ystyriwch y cwestiynau hyn:

- **Ymhle y mae had bywyd newydd?** Pa ddoniau a roddodd Duw inni i ddod yn wneuthurwyr nefoedd yn y sefyllfa yr ydym ni ynddi?
- **Sut i'w gludo?** Pa adnoddau fydd arnom eu hangen i wneud gwahaniaeth yn ein sefyllfa ni a gwneud y byd o'n cwmpas yn fwy nefol?
- **Ymhle y genir y bywyd newydd?** Meddyliwch am un weithred o gymod y gallwn ei gwneud i symud y Rhai Nas Cymodwyd o'u huffern ar y ddaear.
- **Sut y gallwn ei feithrin?** Sut y gallwn gynnal y weithred o gymod a sicrhau ei llwyddiant?
- **Beth ydym ni'n obeithio ei weld?** Beth fydd wedi newid ar ddiwedd y broses a pha wahaniaeth y dylai fod wedi ei wneud?

Mynd ymhellach

Sylfaenwyd yr adnodd hwn ar y bennod 'Heaven and Hell' yn y llyfr *Unreconciled?* lle y cewch lawer o wybodaeth, storïau a syniadau pellach y gallwch eu defnyddio at astudiaeth bersonol neu mewn grŵp, gan gynnwys syniadau pellach at weithgareddau.

Bydd y Gwasanaeth Dyddiol ar Radio 4 o 11 i 14 Ebrill yn cynnig mwy o ddarlleniadau a myfyrdodau ar thema trefn ac anhrefn.

Cymerwyd y dyfyniadau o'r Ysgrythur allan o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig, 2004, © Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon, SN5 7DG.

Ffotograff o'r Rhai Nas Cymodwyd (y Groes a'r gwydr a dorwyd): CTBI / Vicki a Chuck Rogers / Phil Dragash (Creative Commons - BY-NC-SA)